Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | O G James | L R Jones |
| M A Langstone | M B Lewis | S Pritchard |
| D W W Thomas | | |

Hefyd yn Bresennol: Y Cynghorydd J A Raynor - Aelod y Cabinet - Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Damien Beech | Pennaeth Uned y Cyfnod Cynradd |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Rob Davies | Pennaeth Uned y Cyfnod Uwchradd |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |

## 7 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 8 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.

## 9 Y diweddaraf/Adborth gan yr Ymgynghorwyr Herio. (Llafar)

Amlinellodd Helen Morgan-Rees, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr ac yn dilyn cyngor gan Lywodraeth Cymru, y bu'n ofynnol i ysgolion gau wythnos yn gynnar a chwblhau'r tymor drwy ddysgu o bell.

Ers gwyliau'r Nadolig roedd ysgolion wedi derbyn cyfarwyddyd i aros ar gau (heblaw am blant diamddiffyn a phlant gweithwyr allweddol) tan 29 Ionawr i ddechrau, gyda phosibilrwydd o ymestyn hyn i hanner tymor mis Chwefror os bydd cyfraddau heintio presennol COVID yn parhau.
Amlinellodd y gwaith rhagorol a wnaed mewn ysgolion yn ystod tymor yr hydref i gadw ysgolion ar agor, cynnal dysgu a lleihau'r risgiau fel eu bod mor isel â phosib a chynnal amgylchedd diogel i ddisgyblion a staff.

Dywedodd fod llawer o ysgolion wedi bod yn cynllunio ar gyfer cyfyngiadau symud posib ym mis Ionawr a'u bod wedi paratoi gwersi rhithwir a phecynnau papur i baratoi ar gyfer hynny.

Diweddarwyd asesiadau risg ysgolion yn dilyn y cyngor SAGE diweddaraf.

Yn dilyn yr wybodaeth a'r ystadegau a ddarparwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr, rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am faterion sy'n ymwneud â chynhwysiad digidol ac amlinellodd ganlyniadau'r arolwg a oedd yn nodi faint o ddisgyblion nad oedd ganddynt ddyfeisiau priodol. Roedd y nifer hwn, er yn uwch nag yr hoffai'r adran iddo fod, yn adlewyrchu canran fach yn unig o boblogaeth gyffredinol yr ysgol, ac roedd yn bwysig nodi nad oedd y ffigur yn cyfleu nifer y disgyblion heb ddyfeisiau, ond y rheini â dyfeisiau nad ydynt yn briodol ar gyfer dysgu. Croesawyd y datblygiad a oedd yn caniatáu i blant gael mynediad at ddysgu drwy eu dyfeisiau gemau cyfrifiadurol.

Mewn ymateb i hyn, roedd yr adran wedi dosbarthu 1000 o liniaduron a Chromebooks ychwanegol i ysgolion uwchradd yn ddiweddar, ac mae cannoedd o ddyfeisiau ar gyfer ysgolion cynradd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd gan staff adrannol i'w dosbarthu yn ystod yr wythnos nesaf. Dosbarthwyd hefyd ddyfeisiau MIFI ychwanegol i'r disgyblion hynny y nodwyd bod ganddynt broblemau cysylltedd.

Erbyn hyn bydd bron i 10,000 o ddyfeisiau bellach wedi'u dosbarthu ers dechrau'r pandemig.

Mae diffyg ymgysylltiad rhai disgyblion yn parhau i beri pryder, ond mae ysgolion yn monitro'r defnydd a'r gwaith a gyflwynir ac yn cysylltu â rhieni lle bo angen.

Mae'r mater o beidio â defnyddio dyfeisiau yn cael ei fonitro a gellir darparu gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor pan fydd ar gael.

Yna, diweddarodd Damien Beech a Sarah Loydon y pwyllgor ar faterion sy'n ymwneud â'r cyfnod cynradd a chyfeiriwyd yn fanwl at wahanol faterion a phroblemau, gan gynnwys y canlynol:

- Cynhaliwyd ymweliadau cymorth ag ysgolion yn nhymor yr hydref, rhai yn bersonol, ond fe'u cynhaliwyd yn bennaf drwy Teams a thros y ffôn;
- Ymdriniodd ymgynghorwyr â phob ysgol yn unigol ond gydag ymagwedd gyffredin, gan edrych ar feysydd a oedd yn cynnwys dysgu cyfunol, lles disgyblion a staff, paratoi cwricwlwm i Gymru a gwario grantiau dysgu carlam;
- Roedd y pryderon a’r materion cyffredin a godwyd ac a amlygwyd gan ysgolion yn cynnwys tarfu ar ddysgu o ganlyniad i ynysu grwpiau blwyddyn;
- Problemau dysgu cyfunol/o bell, absenoldebau staff/disgyblion a phryder a phwysau ar uwch-staff;
- Materion gweithredol – fel amserau dechrau/gorffen gwasgarog, systemau un ffordd, swigod dosbarth/blwyddyn, mwy o weithdrefnau hylendid a glanhau, llai o gyswllt corfforol â rhieni/gwarcheidwaid;
- Archwiliwyd 27 o ysgolion gan swyddog iechyd a diogelwch yr awdurdod – nodwyd a gweithredwyd rhai mân welliannau;

- Adborth rhagorol ac adroddiadau cadarnhaol gan swyddog yr ALl a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dilyn eu hymweliadau;
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gan ddisgyblion a staff o'r materion a wynebir mewn ysgolion oherwydd y pandemig;
- Cynyddu cyswllt rhithwir a ffôn gyda rhieni/gwarcheidwaid;
- Ehangu gweithgarwch allanol mewn ysgolion o ganlyniad i'r angen am gadw pellter cymdeithasol ac ati;
- Ymagweddau ysgol gyfan/syniadau dysgu teuluol i gynorthwyo ymgysylltiad disgyblion;
- Lleihau'r cwricwlwm gan ganolbwyntio mwy ar rifedd, llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth;
- Materion sy’n ymwneud â marcio ac asesu;
- Monitro staff gan uwch-reolwyr o fewn ysgolion;
- ADY – gwell cyswllt â disgyblion a rhieni, tasgau ar-lein a phapur a baratowyd ac a ddosbarthwyd, adolygu cynnydd gyda rhieni, gwaith cyfleusterau addysgu arbenigol i gynorthwyo pobl ifanc gartref;
- TG – cafodd sgiliau disgyblion, rhieni a staff oll eu gwella drwy anghenraid, drwy rannu profiadau a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a roddwyd ac a ddosbarthwyd;
- Adolygiadau ac arolygon dysgu cyfunol a gynhelir gan ysgolion gyda disgyblion a rhieni;
- Gwell cyfathrebu â rhieni drwy e-bost, negeseuon testun, galwadau ffôn, cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein;
- Asesu ac adolygu disgyblion ar ôl dychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr hydref i asesu eu hanghenion dysgu;
- Materion sy'n codi o'r cyfyngiadau symud cychwynnol a nodwyd gyda disgyblion wrth ddychwelyd i'r ysgol, gan gynnwys diffyg gwydnwch, annibyniaeth, stamina a chanolbwyntio a mentrau a syniadau a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r rhain gan wahanol ysgolion;
- Gwahanol ffyrdd y mae ysgolion wedi datblygu a defnyddio dulliau anghydamseredig a chydamseredig;
- Defnyddio grantiau i wella'r ddarpariaeth wrth symud ymlaen a mynd i'r afael ag anghenion a meysydd a nodwyd trwy adolygiadau disgyblion a datblygu syniadau a mentrau newydd i gynorthwyo dysgu;
- Materion lles sy'n effeithio ar ddisgyblion fel profedigaeth, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gorbryder, iselder a hunan-niweidio y mae staff wedi gorfod delio â hwy a'r cymorth a roddir i bobl ifanc;
- Rhaglenni parhad a dysgu cyfunol sydd wedi'u datblygu ac sydd bellach yn cael eu defnyddio a'u profi'n dda oherwydd materion ynysu disgyblion/blwyddyn, ac effaith y cyfnod atal byr a gorffen tymor yr hydref yn gynnar a bod y rhaglen wedi gwella'n fawr ers ei datblygiad cychwynnol ar ddechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf ond ei bod bob amser yn cael ei hailystyried a'i hailarchwilio i’w gwella a’i haddasu;
- Amlinellwyd y defnydd amrywiol o'r grant recriwtio, adennill a chodi safonau mewn ysgolion gan gynnwys y meysydd canlynol:
    i. Crëwyd cyfwerth â 23.1 o swyddi addysgu ychwanegol,
    ii. 1598+ awr ychwanegol o gymorth cynorthwywyr addysgu.  Os rhennir hyn â 27.5 awr (contract TA nodweddiadol) mae'n cyfateb i tua 58 o

swyddi TA CALl ychwanegol. Er bod hwn yn ffigur cyfatebol, nid yw o reidrwydd yn golygu bod 58 o CAau newydd bellach yn gweithio yn Abertawe. Mewn nifer o ysgolion, mae'r staff presennol wedi cynyddu eu horiau. Defnyddir staff presennol yn aml oherwydd pwysau ariannol ond hefyd i ddefnyddio arbenigedd staff mewnol sydd wedi derbyn hyfforddiant, sy'n adnabod y disgyblion etc.,

iii. 5.1 diswyddiadau athrawon wedi'u hosgoi drwy ddefnyddio grant,
iv. Osgoi colli 120.5 o oriau cynorthwyydd addysgu drwy ddefnyddio'r grant (sy'n cyfateb i 4.4 swydd CALl),
v. Nifer yr ysgolion sydd â mwy o swyddi staff cynorthwyo addysgu: 54,
vi. Nifer yr ysgolion sydd â mwy o swyddi staff addysgu: 21,
vii. Nifer yr ysgolion sydd â mwy o swyddi staff CA ac addysgu: 12,
viii. Nifer yr ysgolion sydd â mwy o swyddi anogwr dysgu: 3.

- Mae ysgolion yn archwilio'r ymagweddau addysgeg ac yn chwilio am ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd dysgu i ddisgyblion;
- Defnyddiodd ysgolion a gynlluniodd ar gyfer cyfyngiadau symud posib yn y dyfodol y dychweliad i'r ysgol ym mis Medi i wella sgiliau a hyfforddi disgyblion a staff i ddefnyddio eu sgiliau TG yn well;
- Bydd y defnydd o ddysgu yn yr awyr agored a phrosiectau'n cynyddu pan fydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol;
- Iechyd a Lles – mae rhan o ffocws Cwricwlwm i Gymru a COVID wedi pwysleisio pwysigrwydd hyn.

Yna, rhoddodd Rob Davies a Rob Phillips yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am faterion sy'n ymwneud â'r cyfnod uwchradd a manylodd a chyfeiriodd at wahanol faterion a meysydd i'w gwella ac arfer da a nodwyd, gan gynnwys y ciplun canlynol o ysgolion:

<u>Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt</u>
Gwellwyd sgiliau staff, gwellwyd cyfathrebiad â rhieni a datblygwyd fforwm digidol i staff lle mae staff yn cynorthwyo cydweithwyr gyda chymorth a hyfforddiant o ran TG. Arweiniodd hyn at waith paratoi a sicrhaodd fod yr ysgol yn barod ar gyfer y cyfnod atal byr a gorffen addysgu'n gynnar ym mis Rhagfyr. Cynhaliwyd arolwg o ddisgyblion, cymysgedd o wersi byw a gwersi wedi'u recordio, datblygwyd protocol ar gyfer gwersi ar-lein o ran sgwrsio/adborth etc., sydd wedi'i rannu fel arfer da, dysgu papur hefyd ar gael.

<u>Ysgol Gyfun Penyrheol</u>
Wedi mabwysiadu dull mwy anghydamseredig yn dilyn adborth gan ddisgyblion a oedd yn dangos bod bron i 50% yn rhannu dyfeisiau, roedd staff wedi paratoi gwaith cyn y cyfnod atal byr felly roedd mewn sefyllfa dda i gyflwyno gwersi ar-lein, roedd dysgu cyfunol yn cynnwys cwricwlwm llawn, trefn brofi ac adborth, lefelau isel iawn o ddiffyg ymgysylltu a gweithdrefnau ar waith i gysylltu â disgyblion a rhieni.

<u>UCD</u>
Materion yn ymwneud â rhai o'r dysgwyr mwyaf diamddiffyn sydd â chefndiroedd heriol iawn ac anghenion ac amodau arbenigol iawn, lefel uwch o gymorth a chyswllt gan staff i gefnogi ac ymgysylltu â disgyblion a rhieni, mentrau a gwaith a wnaed i oresgyn y rhwystrau i ddysgu, roedd y cyfyngiadau symud cychwynnol mewn

gwirionedd yn gwella'r berthynas â theuluoedd drwy gyswllt mwy rheolaidd, cysylltiadau da a ddatblygwyd gyda swyddogion lles addysg, dysgu wedi'i dargedu a sesiynau i unigolion, adnoddau arbenigol a ddosberthir i ddisgyblion, darpariaeth ddysgu cyfunol.

Ysgol Gyfun yr Esgob Vaughan
Ers i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr hydref, mae cyfres o weithgareddau cyfoethogi ac ymgysylltu, grwpiau a chlybiau wedi'u sefydlu a'u cyflwyno, gwell cymorth i deuluoedd, yn enwedig y rheini a oedd yn gwarchod ac sydd â materion iechyd, arfarniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ymagwedd dysgu ac addysgu sefydliad gwaddol addysg, staff yn cefnogi ei gilydd yn enwedig gyda materion TG drwy ddigwyddiadau gyda'r hwyr, cymorthfeydd staff a sesiynau ymarfer, defnydd effeithiol o gwis i fonitro cynnydd disgyblion.

Ysgolion Arbennig
Heriau gwirioneddol i gyflwyno dysgu cyfunol/o bell oherwydd bod y disgyblion yn agored iawn i niwed oherwydd eu cyflyrau corfforol ac emosiynol, bu'n rhaid i'r ddwy ysgol gysylltu â rhieni a’u hyfforddi er mwyn sicrhau y gallai dysgu ddigwydd oherwydd anghenion hynod gymhleth a heriol y disgyblion, CAUau unigol a ddatblygwyd ar gyfer disgyblion, darparu sesiynau byw a sesiynau wedi'u recordio, offer arbenigol a anfonwyd adref i gynorthwyo dysgu. Datblygodd rhieni lefel well o ddealltwriaeth o anghenion dysgu a chynnydd disgyblion oherwydd mwy o gyfranogiad, roedd ailagor y pwll hydrotherapi wedi gwella cynnydd corfforol, adroddiadau rhagorol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Estyn ar Crug Glas sydd wedi'u nodi a'u rhannu fel enghreifftiau o arfer gorau.

Trafododd aelodau'r pwyllgor yn faith y materion a'r problemau a godwyd uchod a gwnaeth y ddau sylwadau ynghylch y materion a gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn unol â hynny. Roeddent yn canmol yr ysgolion a'r adran addysg am y gwaith a'r ymdrechion yr oeddent wedi'u gwneud i alluogi pobl ifanc i barhau i ddysgu.

Roedd y Cynghorydd J A Raynor, Aelod y Cabinet dros Addysg, Dysgu a Sgiliau yn cefnogi sylwadau'r pwyllgor a nododd fod y BBC ac S4C yn dechrau rhaglenni yr wythnos nesaf i gefnogi rhieni plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Nododd fod ysgolion wedi bod yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer y cyfyngiadau symud presennol o ganol tymor yr hydref ac mae ysgolion wedi datblygu cymysgedd ac ystod o ddysgu byw/wedi'i recordio/papur sy'n gwasanaethu eu disgyblion orau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad a'r diweddariad.

**10 Cynllun Gwaith 2020 - 2021.**

Nododd y Cadeirydd, oherwydd goblygiadau sylweddol parhaus pandemig COVID a'i effaith enfawr a'i bwysau ar staff yn ganolog o fewn yr adran ac mewn ysgolion, y gallai fod yn ddoeth oedi'r adolygiad presennol o oblygiadau COVID a’r ddarpariaeth dysgu cyfunol.

Awgrymodd fod y pwyllgor, yn dilyn yr wybodaeth ddiweddaraf a gawsant yn ystod eu cyfarfodydd diwethaf, yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am fentrau a materion sy'n ymwneud â lles disgyblion, yn enwedig o ran y grŵp dysgwyr ehangach sy'n agored i niwed.

Amlinellodd fod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl yn edrych ar faterion lles sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc ar hyn o bryd, felly byddai'n gwahodd Cadeirydd y pwyllgor hwnnw i ddod i'r cyfarfod er mwyn cyfrannu at y drafodaeth.

**Penderfynwyd** y byddai'r cyfarfod nesaf yn cynnwys cyflwyniad llafar ar faterion lles sy'n ymwneud â dysgwyr diamddiffyn.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.35 pm

**Cadeirydd**